CAERDYDD

CARDIFF

DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 20 MEHEFIN 2019 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 20 JUNE 2019, |

Fe'ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Heol Gerddi'r Orsedd, Caerdydd, CF10 3ND on Dydd Iau, 20 Mehefin 2019 at 5.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

14 Mehefin 2019

Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch at eraill   Gwrthrychedd a priodoldeb   Anhunaoldeb a stiwardiaeth
Uniondeb   Dyletswydd i gynnal y gyfraith   Atebolrwydd a bod yn agored

Trwy dderbyn y Pecyn Agenda hwn yn electronig, rydych wedi arbed yr Awdurdod tua. £6.78 mewn costau argraffu

**GWE-DARLLEDU**

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd

| Eitem | | Tua Amser | Max Amser |
|---|---|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>*I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | 5.30 pm | 5 mins |
| 2 | **Datganiadau o Fuddiant**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau)* | | |
| 3 | **Cofnodion** *(Tudalennau 7 - 20)*<br><br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 17 Mai 2019 a'r cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 23 Mai 2019 fel gwir gofnod.* | | |
| 4 | **Deisebau**<br><br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor.* | 5.35 pm | 5 mins |
| 5 | **Teyrngedau i'r Cynghorydd Tim Davies** | 5.40 pm | 15 mins |
| 6 | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Derbyn cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.* | 5.55 pm | 5 mins |
| 7 | **Hysbysiad o Swydd Wag** *(Tudalennau 21 - 22)*<br><br>*Adroddiad y Prif Weithredwr* | 6.00 pm | 5 mins |
| 8 | **Arolwg Etholiadol - Caerdydd** *(Tudalennau 23 - 40)*<br><br>*Adroddiad Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol* | 6.05 pm | 20 mins |
| 9 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg** *(Tudalennau 41 - 132)*<br><br>*Cynnig y Cabinet* | 6.25 pm | 15 mins |
| 10 | **Canllaw Cynllunio Atodol - Dyluniad ac Arwyddion Blaenau Siopau** *(Tudalennau 133 - 176)*<br><br>*Cynigion y Cabinet* | 6.40 pm | 15 mins |
| 11 | **Datganiadau** *(Tudalennau 177 - 208)*<br><br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | 6.55 pm | 45 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Toriad** | | | |
| **Hybysiadau o Gynnig** | | | |
| **12** | **Cynnig 1**<br><br>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Sean Driscoll<br><br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Michael Phillips<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn nodi ei siom ynghylch y ffaith bod y Mesur Awtistiaeth wedi'i drechu'n ddiweddar yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, sef Bil a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol ac a gafodd gefnogaeth drawsbleidiol. Er bod y Cyngor hwn, wrth gwrs, yn cydnabod nad deddfwriaeth yn unig yw'r ateb i wella mynediad i wasanaethau ar gyfer y rhai hynny sydd ag awtistiaeth yn ein cymunedau.<br><br>Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu'r canlynol:<br><br>• Gofyn i Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at y Prif Weinidog ac at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn amlinellu pryder y Cyngor hwn pan gafodd y Bil hwn ei drechu'n ddiweddar, tra hefyd yn ceisio sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn dod ymlaen â'i ddeddfwriaeth ei hun ar y mater hwn.<br><br>• Gofyn i bwyllgor craffu perthnasol y cyngor hwn gynhyrchu darn o waith ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol, ar beth arall y gall y cyngor hwn ei wneud i gefnogi'r rhai sy'n byw gydag awtistiaeth yng Nghaerdydd. | 8.00 pm | 30 mins |
| **13** | **Cynnig 2**<br><br>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Bernie Bowen-Thomson<br><br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Ashley Lister<br><br>Fel Llywodraeth Leol a phob gwasanaeth cyhoeddus arall, mae Heddluoedd yng Nghymru a Lloegr wedi dioddef toriadau sylweddol yn eu cyllid dros y degawd diwethaf. Mae tua thraean o grant yr Heddlu, £51m wedi'i dorri ers 2011/12 a rhagwelir toriadau pellach tan 2020/21.<br><br>Gwaethygir y broblem ariannu hon gan y realiti bod costau pellach yn codi ar gyfer plismona ein prifddinas. Mae | 8.30 pm | 30 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Caerdydd yn un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf, gyda dros 18 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn, nifer o ddigwyddiadau mawr, cartref Llywodraeth Cymru a phoblogaeth uchel o fyfyrwyr.<br><br>Nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i'r costau ychwanegol hyn ac nid yw wedi darparu unrhyw arian ychwanegol i ddiwallu'r anghenion hyn.<br><br>Fel y nodwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, De Cymru<br><br>"Drwy fethu â darparu setliad grant digonol i'r heddlu, mae Llywodraeth y DU wedi symud y baich o ariannu'r heddlu ymlaen i dalwyr y dreth gyngor, gan drosglwyddo'r cyfrifoldeb i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu lleol i ddod o hyd i'r codiadau anochel sydd eu hangen i ddarparu plismona effeithiol."<br><br>Yr effaith ar drigolion yng Nghaerdydd yw cynnydd o 10.3% yn y swm a godir drwy ein treth gyngor i drigolion yng Nghaerdydd, £24 ychwanegol y flwyddyn ar gyfer eiddo band D.<br><br>Mae'n hanfodol bod Caerdydd yn cael ei chadw'n ddiogel ar gyfer y dyfodol, bod dioddefwyr yn cael cymorth, a bod y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn cael eu hamddiffyn.<br><br>Mae’r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu’r canlynol:<br><br>• Ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref i gyfleu’r pwysigrwydd brys i blismona rheng flaen gael ei ariannu'n briodol drwy ateb ariannol hirdymor sy'n gwrthdroi'r toriadau difrifol ac yn rhoi rhyddhad y mae mawr angen amdano i'r Heddluoedd ledled Cymru a Lloegr.<br><br>• Gofyn am i adolygiad o'r fformwla ariannu bresennol gael ei gynnal ar fyrder er mwyn cywiro'r trefniant sy’n amlwg yn ddiffygiol, sy'n gweld Heddlu De Cymru ar hyn o bryd yn cael ei wahardd rhag derbyn Cyllid Prifddinas. | | |
| **14** | **Cwestiynau Llafar**<br><br>*Cwestiynau ar lafar i’r Arweinydd, Aelodau’r Cabinet; Cadeiryddion y Pwyllgorau a/neu Aelodau enwebedig o’r Awdurdod Tân.* | 9.00 pm | 60 mins |
| **15** | **Materion Brys** | | |

| Materion y Cyngor nas Gwrthwynebir | | | |
|---|---|---|---|
| **16** | **Penodi Llywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol** *(Tudalennau 209 - 214)*<br><br>*Report of the Director of Governance and Legal Services* | 10.00 pm | 5 mins |
| **17** | **Penodiadau i Bwyllgorau** *(Tudalennau 215 - 224)*<br><br>*Adroddiad Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol* | | |
| **18** | **Penodi i Gyrff Allanol** *(Tudalennau 225 - 226)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.* | | |
| **19** | **Rhaglen y Cyngor, y Cabinet a Chyfarfodydd Cyffredinol 2019-2020** *(Tudalennau 227 - 238)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.* | | |
| **20** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a’r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* | | |